------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Chwefror 2023

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

---

## Cofrestru (09.30-09.45)

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09.45-10.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(10.00)

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rhagor o wybodaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr - 17 Ionawr 2023**

(Tudalennau 1 - 4)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Newidiadau Arfaethedig i Brotocol y Gyllideb - 17 Ionawr 2023**

(Tudalennau 5 - 6)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Prif Weithredwr a’r Clerc at y Pwyllgor; Taliad costau byw i staff y Comisiwn - 19 Ionawr 2023**

(Tudalennau 7 - 8)

**2.4 PTN 4 - Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2021-22 - 19 Ionawr 2023**

(Tudalen 9)

**2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – 27 Ionawr 2023**

(Tudalennau 10 – 22)

**2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC) – 30 Ionawr 2023**

(Tudalennau 23 – 24)

**2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil**

(Tudalennau 25 – 26)

## 3 Goblygiadau ariannol Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

(10.00-10.30) (Tudalennau 27 – 46)

Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

David Lloyd-Thomas, Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol**:

Bil Bwyd (Cymru), fel y'i cyflwynwyd (PDF, 191KB)

Memorandwm Esboniadol (PDF, 1.1MB)

P1 – Llyodraeth Cymru: Papur tystiolaeth

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## Egwyl (10.30-11.15)

## 4 Goblygiadau ariannol Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

(11.15-12.15)

Peter Fox AS, yr Aelod cyfrifol

Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd

Martin Jennings, Ymchwil y Senedd

Elfyn Henderson, Ymchwil y Senedd

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.**

(12.15)

**6 Bil Bwyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth**

(12.15-12.30)

**7 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2023-24**

(12.30-12.35) (Tudalennau 47 - 71)

**Dogfennau ategol**:

P2 - Cynllun Ffioedd Diwygiedig 2023-24

P3 - Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru: Cynllun Ffioedd Diwygiedig 2023-24 - 2 Chwefror 2023

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Chadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

17 Ionawr 2023

Annwyl Peredur,

Yn dilyn y sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, gweler isod yr wybodaeth bellach y cytunais y byddwn yn ei darparu. Mae rhywfaint ohoni yn ymwneud â'm portffolio i ac mae rhywfaint yn ymwneud â phortffolios Gweinidogion eraill.

**Treth ar Dir Gwag**

Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ceisio datganoli pwerau ar gyfer treth ar dir gwag ers 2018, oherwydd y potensial sydd gan dreth o'r fath i helpu i wireddu ein huchelgeisiau o ran tai ac adfywio. Mae'r mecanwaith ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd wedi'i nodi yn Neddf Cymru (2014).

Byddai cwmpas unrhyw dreth ar dir gwag yn gyfyngedig, ac ni fyddai'n gymwys ond i dir yng Nghymru. Ni fyddai disgwyl yn rhesymol iddo gael effaith sylweddol y tu allan i Gymru, ac felly mae'n amlwg yn gydnaws â chyfrifoldebau datganoledig. Mae ein huchelgeisiau ar gyfer pwerau trethu yn mynd y tu hwnt i dreth ar dir gwag yn unig, ond drwy sicrhau pwerau ar gyfer treth o'r fath, gellir cadarnhau bod y broses yn gweithio a gosod cynsail priodol ar gyfer sut y bydd yn gweithio yn y dyfodol. Os nad yw'n bosibl inni sicrhau'r pwerau ar gyfer y dreth hon, mae'n anodd iawn credu bod y broses fel y darperir ar ei chyfer ar hyn o bryd yn gallu darparu unrhyw bwerau trethu newydd i Gymru.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ofyn am ragor o wybodaeth am sut y byddai treth o'r fath yn gweithio yn lle gofyn a yw'n addas i'w datganoli. Rydym wedi bod yn glir ers y cychwyn cyntaf fod gan Lywodraeth y DU fuddiant dilys o ran pa un a yw'r pwerau'n addas i gael eu datganoli ai peidio, ond mater i'r Senedd, nid Llywodraeth y DU, yw sut y caiff y pwerau hynny eu defnyddio. O ystyried ein profiad o geisio dod o hyd i ffordd drwy'r broses hon gyda Llywodraeth y DU, mae'n glir imi nad yw'r broses yn addas i'r diben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn ceisio symud y mater hwn ymlaen gyda Llywodraeth y DU drwy'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol a byddaf yn rhannu unrhyw ddatblygiadau â'r Pwyllgor.

**Tai Cymdeithasol**

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu huchelgeisiau ym maes tai. Er mwyn galluogi hyn, sefydlwyd y rhaglen Graddfa Fawr a Chyflym yn 2020 er mwyn cefnogi'r 11 o gynghorau sydd wedi cadw stoc i ddarparu cartrefi newydd. Bellach mae gan awdurdodau lleol fynediad at Grant Tai Cymdeithasol ac maent yn mynd ati i'w ddefnyddio i gefnogi eu rhaglenni. Fodd bynnag, darperir nifer o gartrefi ychwanegol heb gymorth canolog a thrwy fenthyca uniongyrchol a ariennir trwy incwm rhent.

Gan weithio gyda'r sector, rydym wedi datblygu a chyhoeddi llawlyfr cyfarwyddyd Cyfrif Refeniw Tai (HRA) newydd. Mae'r llawlyfr yn rhoi eglurder i gynghorau a'u tenantiaid ar yr hyn y gellir defnyddio'r HRA ar ei gyfer a'r hyn na ellir ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cael gwared ar y 'cap benthyca' yn 2019 a arferai osod terfynau benthyca. Bellach mae gan awdurdodau lawer mwy o ryddid i benderfynu ar lefel eu benthyca sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau. Mae llawer o'r benthyciadau hyn drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) sy'n cynnig benthyciadau am hyd at 50 mlynedd. Rydym yn gwybod bod y cynnydd yn y gost o fenthyca yn cael effaith ar adeiladu tai, a bydd hyn yn cynnwys awdurdodau lleol o ganlyniad i godi cyfradd llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

**Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2023-24**

Bydd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer 2023-24 yn darparu cymorth i eiddo cymwys a feddiannir drwy gynnig hyd at 75% o ostyngiad ar filiau ardrethi annomestig. Bydd y cynllun ar gael i bob busnes cymwys, ond bydd uchafswm i swm y rhyddhad y caiff pob busnes ei hawlio ledled Cymru. Cyfanswm y rhyddhad sydd ar gael yw £110,000 ar gyfer yr holl eiddo a feddiannir gan yr un busnes

Bydd gan fusnesau sy'n meddiannu mwy nag un eiddo hawl i Ryddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch ar gyfer pob un o'u heiddo sy'n gymwys, o dan yr uchafswm o £110,000 y busnes ledled Cymru.

Bydd angen i fusnesau wneud cais i'w hawdurdod lleol am y cynllun rhyddhad hwn. Mae'r cais yn cynnwys datganiad sy'n nodi bod y busnes yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sy'n cadarnhau nad yw swm y rhyddhad y mae'n gwneud cais amdano yn fwy na'r uchafswm hwn. Pan fo 75% o'r rhwymedigaeth ar gyfer holl eiddo busnes yn fwy na £110,000, rhaid i fusnesau bennu pa eiddo y maent am i'r rhyddhad gael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Caiff busnesau ddewis pa eiddo y maent yn gwneud cais am ryddhad ar ei gyfer.

Mae cynllun tebyg iawn, sy'n rhoi rhyddhad o 50%, gydag uchafswm o £110,000 y busnes ledled Cymru, yn cael ei ddarparu yn ystod 2022-23. Mae canllawiau ar y cynllun presennol wedi'u cyhoeddi yn y ddolen ganlynol, a chaiff canllawiau tebyg ar gyfer cynllun 2023-24 eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd: [https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-lletygarwch-yng-nghymru-2022-23](https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-lletygarwch-yng-nghymru-2022-23).

**Camau Gofal Sylfaenol**

Mae'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn arwain ar amrywiaeth o gamau cenedlaethol a gymerir i gefnogi'r gwaith o ail-gydbwyso'r system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu gwasanaeth 'iachusrwydd' a ddefnyddir yn lleol. O 2023-24, bydd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn dechrau'r ymgyrch i roi llwybrau gofal cenedlaethol ar waith. Nod y llwybrau hyn yw symud i ffwrdd o fodel gofal sy'n feddygol ac yn seiliedig ar episodau tuag at fodel cymdeithasol sy'n ystyried yr unigolyn cyfan dros oes gyfan, ac sy'n canolbwyntio'n fwy ar hunanofal, atal a gwasanaethau lleol.

Ymhlith y camau allweddol a fydd yn helpu i ddod â gwasanaethau lleol at ei gilydd i gydweithio drwy glystyrau ac i sicrhau bod pobl yn gallu gweld y gweithwyr proffesiynol iawn yn haws mae:

- *Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol* – mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy na £17 miliwn mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol drwy'r cytundeb contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2022-23. Cyhoeddwyd y cytundeb hwn ar 28 Hydref 2022 o ganlyniad i negodiadau tairochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru. Bydd y cytundeb hwn yn arwain at newidiadau mewn contractau a fydd yn gwella gwasanaethau i gleifion ac yn lleihau'r baich gweinyddol i feddygon teulu, gan roi cyfle iddynt ganolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel.

- *Fferylliaeth Gymunedol* – mae buddsoddiad parhaus drwy Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol er mwyn darparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Clinigol a Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth Gymunedol ledled Cymru, gan helpu pobl i fanteisio ar gyngor a thriniaeth am ddim yn y gymuned, yn aml heb angen aros am apwyntiad.

- *Canolfannau Iechyd a Gofal Integredig* – mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu canolfannau cymunedol integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi cyfle i helpu i ddarparu gwasanaethau di-dor drwy greu pwyntiau mynediad unigol lleol a thrwy gyd-leoli staff a gwasanaethau sy'n darparu llwybrau gofal integredig. Bydd prosiectau yn cyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion y Model Gofal Sylfaenol i Gymru a Cymru Iachach: Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019), o ran darparu dull system gyfan sy'n dangos integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol.

- *Deintyddiaeth* – caiff cyllid gwerth £167.7 miliwn ei ddyrannu i fyrddau iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol y GIG bob blwyddyn. Mae hyn ar ben y refeniw gan ffioedd cleifion, sy'n rhoi cyllideb gyfan o ychydig llai na £202 miliwn. Mae'r gyllideb ddeintyddol wedi'i chynyddu yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion ar gyfer 2022-23 ac ni fwriedir lleihau'r swm hwn yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Rydym yn gweithio ar raglen ddiwygio ym maes deintyddiaeth ar hyn o bryd, gyda'r nod o symud i ffwrdd o system seiliedig ar sicrhau Unedau Gweithgarwch Deintyddol tuag at system sy'n gallu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar y risgiau a wynebir gan gleifion a'u hanghenion, ond sydd hefyd yn seiliedig ar atal. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn haws ac yn gwella eu hansawdd.

**Cynlluniau Menter Cyllid Preifat**

Isod ceir rhestr o'r cynlluniau menter cyllid preifat yng Nghymru sy'n dod i ben yn ystod y pum mlynedd nesaf:

| Enw’r Cynllun | Yr Awdurdod Caffael | Dyddiad Gorffen Gweithredu |
|---|---|---|
| Rhodfa Lloyd George a Sgwâr Callaghan | Llywodraeth Cymru | 18/12/2025 |
| Ysbyty Cymunedol Cas-gwent | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 01/02/2025 |
| Uned Llawdriniaethau Dydd Ysbyty Nevill Hall | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 01/07/2024 |
| Rheoli Ynni Ysbyty Nevill Hall | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 18/12/2026 |
| Llety Staff Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 01/10/2028 |

Gobeithio y bydd yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol ichi. Rhowch wybod imi os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

17 Ionawr 2023

Annwyl Peredur,

**Newidiadau Arfaethedig i Brotocol y Gyllideb**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr yn gofyn am adolygiad o Brotocol presennol y Gyllideb.

Rwy’n cydnabod yr amgylchiadau eithriadol roedd angen eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU a'r effaith y mae hyn wedi ei chael ar ein hamser paratoi ein hunain. Rwyf hefyd yn ymwybodol i'r protocol hwn gael ei lunio'n wreiddiol gyda golwg ar Gyllideb Wanwyn gan Lywodraeth y DU, a Chyllideb mewn dwy ran gan Lywodraeth Cymru i’w chyhoeddi ym mis Hydref.

Er gwaethaf yr amgylchiadau hyn, mae Protocol presennol y Gyllideb wedi bod yn effeithiol o ran rhoi inni'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn ymateb. Rwyf hefyd wedi croesawu dull adeiladol y Pwyllgor Cyllid yn ystod y cyfnod, ac elfennau pwysig sydd wedi’u cyflwyno megis cynnal dadl y Pwyllgor Cyllid cyn toriad yr haf.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod drwy hyn nad ydych chi wedi cael y sicrwydd sydd ei angen arnoch er mwyn craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Wrth inni barhau i wynebu rhagor o amhendantrwydd gan Lywodraeth y DU ynghylch pryd y cynhelir digwyddiadau cyllidol – megis Datganiad Gwanwyn y DU ar 15 Mawrth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef ychydig ddiwrnodau ar ôl ein Cyllideb Derfynol – mae'n werth ystyried ffyrdd o addasu i'r amgylchiadau hyn yn well.

Ar y sail hon, rwy'n awgrymu ein bod yn cyfarfod maes o law eleni i drafod y ffordd orau o ymdrin â'r newidiadau rydych wedi eu cynnig. Byddwn hefyd yn awgrymu bod eich clerc a’ch swyddogion cymorth yn gweithio gyda’m swyddogion dros y misoedd nesaf i ymchwilio i’r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaith hwn ymhellach ac i edrych ar feysydd lle y gall fod tir cyffredin rhyngom o ran y newidiadau y mae angen eu gwneud.

Byddaf yn gofyn i'm swyddogion gysylltu â'ch clerc i wneud y trefniadau, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Ionawr 2023

Annwyl Peredur,

**Taliad costau byw i staff y Comisiwn**

Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd fis Hydref 2022, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24*, cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid argymhelliad y dylai Comisiwn y Senedd ystyried darparu cefnogaeth ychwanegol i staff ar y cyflogau isaf a/neu staff sydd o bosib yn profi anawsterau gyda'r cynnydd mewn costau byw.

Fe wnaethoch chi adleisio'r pwynt hwn yn eich cyfraniad i ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd 2022 i drafod cynnig ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi mynd ati i archwilio ffyrdd o gyflawni hyn yn erbyn cefndir ariannol sy'n mynnu gwaith blaenoriaethu gofalus a rhai penderfyniadau anodd.

Y tu hwnt i'r cymorth sydd eisoes yn cael ei gynnig i holl staff y Comisiwn fel y Rhaglen Cymorth i Weithwyr a'r Rhagdaliad Caledi, mae'r Comisiwn wedi bod yn ceisio canfod ffordd i gynnig cymorth ariannol i gynifer o staff â phosibl. Mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar gefnogi'r rhai ar y graddau isaf.

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod y Bwrdd Gweithredol wedi sicrhau cymeradwyaeth y Comisiynwyr i wneud cyfres o daliadau anghyfunol sy'n cyfateb i swm sefydlog o £500 i'r holl staff yn y graddau Cymorth Tîm ac M3 (EO) ar hyn o bryd, yn ennill llai na £32,000 FTE, ac mewn cyflogaeth ar 1 Ionawr 2023, yn daladwy mewn tri rhandaliad (mis Ionawr hyd at fis Mawrth).


Mae'r taliad yn fforddiadwy yn dilyn ystyriaeth ofalus o'n safle diwedd-blwyddyn, gan sicrhau fod cronfa synhwyrol a chymesur wrth gefn mewn lle, a'r bwriad i gynnal adolygiad cynhwysfawr pellach o'n dyraniadau Cronfa Prosiectau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae'r cynnig yn cael ei gyfathrebu i holl staff y Comisiwn heddiw (dydd Iau 19 Ionawr) a byddwn yn falch o ateb cwestiynau cysylltiedig sydd gennych.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

National Audit Office

The UK's independent public spending watchdog

Comptroller and Auditor General
Gareth Davies

Switchboard [redacted]
Email [redacted]

Peredur Owen Griffiths MS
Chair, Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Email: SeneddFinance@senedd.wales

Date 19 January 2023

Dear Peredur,

ADMINISTRATION OF WELSH INCOME TAX 2021-22

I am pleased to be able to share with you my report on the Administration of Welsh rates of income tax 2021-22, which has been published today.

I should be very happy to discuss the findings of my report with you and other members of the Committee, if you would find this useful.

Yours sincerely,

Gareth Davies

**GARETH DAVIES**

157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP
020 7798 7000 www.nao.org.uk



ISOQAR REGISTERED
UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 0026
Cert No. 8835
ISO 14001

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

27 Ionawr 2023

Annwyl Lywydd

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Parthed y llythyr a anfonais ar 21 Rhagfyr 2022 mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), yn ystod ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2022, gwnaethom drafod llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol (dyddiedig 19 Ionawr), sy'n ymateb i gyfres o gwestiynau y gwnaethom eu gofyn ar ôl i'r Cwnsler Cyffredinol ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr. Ar 23 Ionawr, gwnaethom hefyd drafod eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr, lle gwnaethoch ofyn a fyddai modd inni barhau i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at faterion perthnasol, yn enwedig yr agweddau hynny sydd â goblygiadau posibl o ran busnes y Senedd.

Mae llythyr y Cwnsler Cyffredinol, dyddiedig 19 Ionawr, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Bil, yn ogystal â gwybodaeth am sut y mae'n adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir, materion sy'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau, a'r effaith ar y Senedd a'i rôl.

Gwnaethom gytuno y byddem yn tynnu eich sylw chi, a sylw Pwyllgorau perthnasol y Senedd, at yr ohebiaeth dan sylw.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

19 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr yn gofyn am ymateb i gwestiynau yn dilyn fy ymddangosiad ar 5 Rhagfyr mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith cydwybodol i ystyried goblygiadau'r Bil hwn.

Mae'r ymatebion i'ch cwestiynau ar gael mewn Atodiad i'r llythyr hwn. Fodd bynnag, i roi'r rhain yn eu cyd-destun priodol, hoffwn wneud dau sylw pwysig a hanfodol efallai y bydd y Pwyllgor am eu hystyried wrth weithio ar y Bil.

Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn gryf yn erbyn holl fwriad y Bil. Yn gyffredinol, ein safbwynt ni yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir, fel cyfraith yr UE cyn hynny, yn gweithio'n dda. Felly, ac eithrio diwygio'r gyfraith yn raddol fel sy'n briodol drwy gasglu tystiolaeth, ymgynghori â'r cyhoedd, a chwblhau trefniadau craffu deddfwriaethol yn y ffordd arferol, dros amser fel sy'n wir gydag unrhyw gorff o gyfreithiau, nid oeddem yn bwriadu diddymu, dirymu na diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn terfyn amser mympwyol am resymau ideolegol. Fodd bynnag, mae cynnig deddfwriaeth fel hon a fyddai, yn anochel, yn diddymu mesurau diogelu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hanfodol yn annerbyniol ac yn anghyfrifol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y defnydd o amser gwerthfawr gan lywodraethau a deddfwrfeydd pan mai

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

canlyniad rhan helaeth o'r gwaith hwn yn syml fydd cadw yn y gyfraith y darpariaethau hanfodol hynny y byddai'r Bil yn eu dileu'n awtomatig fel arall. Ni fydd y gwaith ofer hwn o unrhyw fudd i neb, ac mae'n ddefnydd anffodus o adnoddau cyfyngedig yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Llywodraeth y DU.

Yn ail, Bil galluogi yw'r Bil yn y bôn, a bydd ei holl oblygiadau yn dibynnu ar ddewisiadau polisi gan Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch pa ddarnau o ddeddfwriaeth y dylid eu cadw, eu diwygio neu eu gadael i fachludo. Oni bai ein bod yn cael yr wybodaeth fanwl honno, a than ei bod wedi dod i law, mae pob un ohonom yn gweithio mewn sefyllfa ansicr iawn, gyda'r anawsterau amlwg y mae'n eu hachosi i Lywodraeth Cymru, ac i'ch Pwyllgor yn eich rôl craffu. Gobeithio y bydd modd inni barhau i gydweithio wrth ymdrin â'r Bil hwn o dan yr amgylchiadau anffodus hyn, gan gydnabod ein gwahanol rolau sefydliadol, ond hefyd ein buddiannau cyffredin o ran uniondeb y setliad datganoli.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

## ATODIAD

Cyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed yng Nghymru

1. **Gwnaethoch ddweud wrthym fod yn rhaid i ffocws Llywodraeth Cymru fod, yn gyntaf, ar sicrhau bod cyfraith ein hunain yr UE a ddargedwir yn cael ei dadansoddi a'i dargadw ac mai'r gyfraith sydd wedi'i gwneud yng Nghymru sy'n cael ffocws (Cofnod y Trafodion, 242). A yw'r dadansoddiad hwnnw wedi'i gwblhau? Os nad yw, beth yw eich dyddiad targed i'w gwblhau?**

Rydym yn gweithio tuag at gael rhestr derfynol o gyfraith yr UE a ddargedwir cyn gynted ag y bo modd. Mae hon yn dasg gymhleth, a byddwn yn fwy na pharod i rannu'r newyddion diweddaraf am gynnydd â'ch Pwyllgor.

Adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir

2. **Gwnaethoch chi a'ch swyddogion ddweud bod timau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'u timau cyfatebol yn Whitehall i ddadansoddi taenlenni o ddata a luniwyd gan yr adrannau yn Whitehall i weld a ydych yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw (Cofnod y Trafodion, 242 i 254). Beth yw'r dyddiad targed i gwblhau'r gwaith hwnnw?**

Er ein bod wedi cael rhywfaint o wybodaeth gan Lywodraeth y DU nid yw'n gynhwysfawr. Rydym yn parhau i gael gwybodaeth fesul tipyn, ond rydym yn ystyried unrhyw wybodaeth ac yn mynd i'r afael â hi wrth iddi ddod i law. Gobeithio y bydd darlun mwy llawn gennym yn y dyfodol agos fel y bydd modd inni gynnal asesiad priodol ohoni.

Dull Llywodraeth Cymru

3. **A yw Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd yn newid nac yn dileu cyfraith yr UE a ddargedwir ddatganoledig heb gydsyniad Llywodraeth Cymru? Os felly, a yw Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r Bil i adlewyrchu'r ymrwymiad hwn?**

Rydym yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU am y mater hwn, ond yn dal i aros am y sicrwydd angenrheidiol.

4. **Gwnaethoch ddweud wrthym os na chymerir mesurau i allu nodi a deall yr hyn y dymunir ei ddargadw, y bydd popeth arall yn mynd (Cofnod y Trafodion, 295). At hynny, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi penderfynu eto ar eich dull o ddargadw cyfraith yr UE a ddargedwir ond eich bod am sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf.**

    a. **Felly, a allwch gadarnhau nad ydych yn bwriadu arbed holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig?**
    b. **Ar ba sail y byddwch yn penderfynu pa feysydd sydd bwysicaf i Lywodraeth Cymru?**

c. **A allwch ddweud wrthym pa feysydd yw'r rhain neu, os na allwch, pryd y byddwch yn gallu dweud wrthym?**
d. **Beth yw'r risgiau i'r meysydd y bernir nad ydynt yn bwysig neu eu bod yn llai pwysig a sut y penderfynwyd arnynt?**
e. **Sut y byddwch yn lliniaru ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, yn enwedig os nad ydych yn cynnal eich asesiad effaith eich hunan (Cofnod y Trafodion, 256)?**

Nid ydym yn bwriadu gadael i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig ddod i ben, oni bai bod rhesymau da iawn dros wneud hyn. Fodd bynnag, fel mater o lywodraethu da, bydd angen sicrhau bod ein safbwynt terfynol ar offerynnau penodol yn ystyried unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyfraith bresennol yr UE a ddargedwir ar gyfer Lloegr; neu, mewn perthynas â chyfraith bresennol yr UE a ddargedwir ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru. Pan fo Llywodraeth y DU am adolygu unrhyw ddarn o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n effeithio ar fater datganoledig, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU fynd ati i gydweithio â ni ar hyn.

At hynny, rydym yn awyddus i gadw holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir sy'n ymwneud â Chymru, yn ddarostyngedig i'r cafeat uchod.

5. **Gwnaethoch ddweud wrthym y gallech fabwysiadu dull brysbennu, lle rydych yn ceisio nodi’r meysydd y mae’n amlwg eu bod yn ymwneud â materion datganoledig fel y materion pwysicaf, yn hytrach na materion technegol, er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar y meysydd pwysicaf (Cofnod y Trafodion, 277). Beth yw ystyr materion technegol yn y cyd-destun hwn?**

Rydym yn aros i gael rhestr gyfoes a chynhwysfawr o gyfreithiau'r UE a ddargedwir, a datganiadau o fwriad y polisi o ran offerynnau'r cyfreithiau hyn gan Lywodraeth y DU. O ystyried pa mor gymhleth yw'r cydberthnasau rhwng ac o fewn cyfreithiau’r UE a ddargedwir yn y DU, bydd gwybodaeth am fanylion bwriadau’r DU yn ein helpu i ddadansoddi’r darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y gellid eu cadw heb arwain at gymhlethdodau (ac felly byddai angen darn o waith technegol er mwyn eu cadw, ond dim mwy na hynny). Bydd hefyd o gymorth inni ddadansoddi’r cyfreithiau hynny y mae angen eu hystyried yn ddyfnach o ran pa un a ddylwn eu cadw ai peidio a sut, er enghraifft, am fod Llywodraeth y DU yn cynnig eu diddymu neu eu diwygio o ran Lloegr neu mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru.

6. **Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn credu bod y Bil wedi creu cryn ansicrwydd i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi eich cyhuddo o fegino/waethygu hyn drwy beidio â nodi eich dull yn glir. I ba raddau y gallai Llywodraeth Cymru leihau'r ansicrwydd hwn?**

7. **Beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi sicrwydd i randdeiliaid o’i strategaeth gyffredinol mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir ac am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'u pryderon?**

O ran Cwestiynau 6 a 7, fel y nodwyd yn y llythyr eglurhaol, menter Llywodraeth y DU yw'r Bil, ac nid ydym yn cytuno ag ef. Ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r Bil, heb eglurder

ynghylch beth fydd yn digwydd i bob darn o ddeddfwriaeth, sy'n creu'r ansicrwydd. Prin iawn fydd ein gallu i liniaru hynny i randdeiliaid yng Nghymru tan ein bod wedi cael yr eglurder hwnnw gan Lywodraeth y DU. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â'r Senedd ac â rhanddeiliaid ar y gwaith hwn.

**8. Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd Llywodraeth Cymru am ddargadw cyfraith ac na fydd am i safonau ostwng. Felly, bydd am sicrhau ei bod yn dargadw safonau. (Cofnod y Trafodion, 277). Sut y byddwch yn cynnal neu'n gwella safonau os ydynt yn cael eu gwanhau neu eu lleihau o dan y Bil, naill ai drwy hepgoriad neu drwy gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU?**

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir fel y nodwyd uchod yng Nghwestiwn 4: Nid oes gennym awydd na bwriad i ddiddymu unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys i Gymru ac sydd o fewn maes lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, nac i adael i unrhyw gyfraith o'r fath ddod i ben o ganlyniad i'r Bil, oni bai bod rhesymau da iawn dros wneud hyn. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, o ganlyniad i ymwahanu trawsffiniol, bydd angen inni ystyried safbwynt a bwriadau Llywodraeth y DU wrth wneud ein penderfyniadau, o ran y goblygiadau i Gymru o arfer dulliau penodol mewn meysydd polisi penodol.

<u>Arbed cyfraith yr UE a ddargedwir</u>

**9. Gwnaethoch ddweud y daw'r cymhlethdod o wybod maint yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud. Er enghraifft, mewn maes enfawr â 3,800 neu fwy o ddarnau o ddeddfwriaeth, os yw Llywodraeth y DU yn penderfynu y dylai ddargadw nifer fawr ohonynt, mae hynny'n datrys rhan o'r broblem. Mae'n datrys rhan o'r broblem ac yn ei gwneud yn llawer haws rheoli'r meysydd sydd heb eu dargadw.**

**a. Mae hyn yn awgrymu i ni y bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio penderfyniadau a chamau i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau. A yw hyn yn gywir? Oes gennych bryderon am yr hyn y mae'r dull hwn yn ei olygu ar gyfer Cymru, gan gynnwys y Senedd?**

Byddai'n well gennym gadw holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir sy'n gymwys i Gymru, oni bai bod rhesymau da iawn dros beidio â gwneud hynny. Yn gyffredinol, os bydd Llywodraeth y DU yn cadw darn o gyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer Lloegr, wedyn mwy na thebyg byddwn yn gwneud yr un peth mewn cysylltiad â materion datganoledig yng Nghymru. Byddai angen ystyried hefyd sut yn ymarferol y byddai modd cyflawni hyn.

**b. A fydd Llywodraeth Cymru yn aros i weld yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei arbed ac yn penderfynu wedyn ar yr hyn y mae angen iddi hi ei hun ei arbed?**

Fel y nodwyd yn yr ateb i a. uchod, byddai'n well gennym gadw holl gyfreithiau'r UE a ddargedwir sy'n gymwys i Gymru, oni bai bod rhesymau da iawn dros beidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu newid cyfraith yr UE a ddargedwir ar ochr Lloegr o'r ffin, mae penderfyniadau cymhleth ynghylch polisïau y mae angen eu gwneud. Byddai angen asesu'n briodol y goblygiadau economaidd,

cymdeithasol ac amgylcheddol a'r risgiau i Gymru ar gyfer pob un o'r meysydd hyn o newid i'r sefyllfa bresennol a fyddai'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU. Bydd angen ystyried yn yr un ffordd y newidiadau a gynigir gan Lywodraeth y DU i ddeddfwriaeth a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru.

Gwelliannau

**10. Yn ogystal â'r gwelliant unigol i'r Bil rydym yn gwybod eich bod wedi gofyn amdano (mewn perthynas â gallu Gweinidogion Cymru i estyn dyddiad machlud hyd at 23 Mehefin 2026), gwnaethoch ddweud y byddech yn annog newidiadau sy'n rhoi'r gwarantau a geisiwyd a gwnaethoch sôn yn benodol am bwerau cydredol yn y Bil a phwerau swyddogion y gyfraith mewn llywodraethau datganoledig (Cofnod y Trafodion, 285). Gwnaethoch ddweud hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud y pethau arferol o ran sesiynau briffio a thrafodaethau, o ran ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartïon â buddiant, y byddant oll yn gwneud eu sylwadau eu hunain (Cofnod y Trafodion, 289).**

  a. **Pa newidiadau penodol i'r Bil ydych yn eu ceisio?**
  b. **A allwch gadarnhau eich bod wedi gwneud ceisiadau ffurfiol i Lywodraeth y DU ac, os nad ydych wedi, pryd y byddwch yn gwneud hynny?**
  c. **Pam nad yw eich newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn eich Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, sy'n rhestru un gwelliant yn unig, i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn a'r Senedd ehangach?**
  d. **Gwnaethoch ddweud y gallwn ddisgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno mwy o welliannau a'ch bod wedi'u nodi. Pryd y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu arnynt?**
  e. **Rydych yn sôn mai opsiwn sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw dibynnu ar eraill i gyflwyno gwelliannau sy'n adlewyrchu eich safbwynt, yn hytrach na gweithredu ar y cyd. A allech roi mwy o wybodaeth am hyn a chadarnhau pwy yw "eraill" yn y cyd-destun hwn?**

Rydym wedi bod yn cysylltu â Llywodraeth y DU dros nifer o fisoedd i drafod y pryderon sydd gennym am y Bil. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r rhain yn ymwneud â phwy sy'n cael arfer y pŵer i estyn y terfyn amser ar gyfer machludo, ond maent hefyd yn ymwneud â mater cydsyniad ar gyfer arfer pwerau cydredol gan Weinidogion Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, y terfyn amser penodol ar gyfer machludo, y baich rheoleiddio a'r pwerau o ran ymyrryd a chyfeirio sy'n arferadwy gan Swyddogion y Gyfraith yn y DU. Rydym wedi gofyn am newidiadau i'r Bil mewn perthynas â phob un o'r materion hyn. Rydym wedi codi'r materion hyn mewn gohebiaeth â Gweinidogion arweiniol y DU ar gyfer y Bil, mewn cyfarfodydd â Gweinidogion ac yn fy ymateb ysgrifenedig ar y Bil i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau i fynd i'r afael â nhw.

Er ein bod wedi gobeithio y byddai modd gwneud cynnydd, ac y byddai synnwyr cyffredin yn ennill y dydd, nid yw Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd inni eto eu bod yn fodlon gwneud newidiadau i'r Bil i fynd i'r afael â'n pryderon.

Ar y cyd â cheisio sicrhau newidiadau i'r Bil gan Lywodraeth y DU, roedd y Bil ymhlith y pynciau hynny a drafodwyd ag aelodau Tŷ'r Arglwyddi yr wythnos diwethaf.

**11. O dan gymal 15 o'r Bil, bydd Gweinidogion yn cael eu hatal rhag cynyddu'r baich rheoleiddio wrth ddirymu neu amnewid cyfraith yr UE a ddargedwir. Gwnaethoch sôn bod hyn yn gyfyngiad sy'n gwbl annerbyniol (Cofnod y Trafodion, 269). Felly, pam nad ydych wedi gofyn am welliant i ddileu'r cyfyngiad hwn o'r Bil?**

Gweler yr ateb i gwestiwn 10 uchod.

**12. Rydych wedi gwneud sylwadau o'r blaen am y pwerau enfawr a fydd yn cael eu rhoi i Weinidogion drwy'r Bil hwn. Gwnaethoch ddweud wrthym fod y rhain yn bwerau na fyddai'n ddymunol, dan amgylchiadau arferol, eu rhoi i lywodraethau. At hynny, gwnaethoch ddweud nad yw'n gwestiwn a yw Llywodraeth Cymru am eu cael. Mae'n debyg na fydd dewis – bydd yn rhaid arfer y pwerau er mwyn dargadw deddfwriaeth sy'n cynnal safonau, pethau rydym yn gytûn arnynt mewn meysydd datganoledig (Cofnod y Trafodion, 291). A ydych wedi gofyn i'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn codi'r gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig â'r pwerau os yw Gweinidogion Cymru yn eu harfer, a phryd y cânt eu harfer?**

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi datgan yn gryf ein pryderon ynghylch y Bil i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, os caiff ei basio fel y'i drafftiwyd, bydd rhaid inni arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, lle y bo'n bosibl, fel rhan o'n gwaith i amddiffyn y setliad datganoli. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi ein pryderon y bydd y ddarpariaeth fachlud yn golygu na fydd rôl gan Senedd y DU na'r deddfwrfeydd datganoledig o ran craffu na goruchwylio mewn achosion pan fo cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei adael i fachludo'n awtomatig. Ni fydd hyn yn caniatáu digon o amser i ymgynghori'n effeithiol ar newidiadau arfaethedig i gyfraith yr UE a ddargedwir, a allai arwain at broblemau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd ac effeithiau negyddol posibl, er enghraifft effeithiau ar grwpiau gwarchodedig.

<u>Ymwahanu ac anghydfodau</u>

**13. A ydych wedi nodi meysydd lle y mae gennych fwriadau polisi sy'n ymwahanu â rhai llywodraethau eraill y DU?**

Gan fod bwriadau polisi manwl a chynhwysfawr Llywodraeth y DU mewn unrhyw faes penodol naill ai ddim yn glir eto neu ond yn dechrau dod i'r amlwg, nid yw'n bosibl rhoi ateb pendant i'r cwestiwn hwn ar y cam hwn.

**14. Pan wnaethom ofyn i chi sut y gellid datrys anghydfodau, gwnaethoch ddweud wrthym ei bod yn annhebygol y bydd y broses rynglywodraethol newydd sydd wedi'i sefydlu yn arbennig o ddelfrydol ac efallai y gellir creu rhywbeth yn benodol i geisio datrys yr anghytundebau (Cofnod y Trafodion, 279).**

a. **A allwch egluro pam na fyddai'r strwythurau a grëwyd yn ddiweddar ar gyfer datrys anghydfod rhynglywodraethol y strwythurau priodol i'w defnyddio i ddatrys anghydfodau yn y maes hwn?**
b. **A allwch chi gadarnhau, lle y bo'n berthnasol, y byddai anghydfodau'n mynd drwy broses berthnasol y fframweithiau cyffredin yn y lle cyntaf?**
c. **O gofio'r angen am gamau amserol oherwydd y dyddiad machlud 31 Rhagfyr 2023, pa mor realistig ydyw y gellid creu proses datrys anghydfod newydd?**

Byddwn bob amser yn cadw'r hawl i uwchgyfeirio materion o fewn y weithdrefn Osgoi a Datrys Anghydfodau y cytunwyd arni yn dilyn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a luniwyd ar y cyd, pan fo'n briodol gwneud hynny. Dylid gweld y broses ddatrys sy'n rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol fel rhan o system ehangach o gysylltiadau rhynglywodraethol, ac fel proses i'w defnyddio pan fetho popeth arall. Mae hyn yn rhan annatod o'r mecanwaith a osodir ganddo – cytunir y dylai'r mecanwaith hwnnw roi anogaeth i osgoi anghydfodau drwy sicrhau bod strwythurau cyfathrebu a llywodraethu effeithiol ar waith ar bob lefel, o swyddogion hyd at weinidogion. Fel y gwyddoch, nid yw'r trefniadau Osgoi Anghydfodau yn lleihau effaith y darpariaethau cyfreithiol yn y setliadau datganoli sy'n llywodraethu materion sy'n gysylltiedig â chymhwysedd deddfwriaethol. Byddai angen inni ystyried bob amser y fforwm priodol lle y gellir cyflwyno ein pryderon, yn benodol pan fo anghydfod ynghylch cymhwysedd pwy y mae unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth ynddo.

Bydd Fframweithiau Cyffredin yn chwarae rhan mewn elfennau o'r broses datrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â chyfraith yr UE a ddargedwir, er y bydd yr amser sydd ar gael i ymgymryd â'r gwaith hwn yn cael effaith anferth ar y gallu i gymryd rhan lawn yn y broses hon. Rhaid cofio hefyd nad yw pob maes cyfraith yr UE a ddargedwir yn dod o dan Fframwaith Cyffredin.

Mae'r terfyn amser presennol ar gyfer machludo yn golygu nad yw'n realistig credu y gellid creu proses addas ar gyfer datrys anghydfodau mewn pryd i wasanaethu'r broses yn briodol. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn, nid Llywodraeth Cymru.

<u>Capasiti ac adnoddau</u>

15. **Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 9 Rhagfyr, gan nad oes gan Lywodraeth Cymru gapasiti dros ben, y bydd angen capasiti dargyfeiriedig o'i rhaglen ddeddfwriaethol i weithio ar y Bil. O gofio sylwadau'r Prif Weinidog, pryd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch pryd a ble y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio, ac a fyddwch yn ymrwymo i ddiweddaru'r Senedd cyn gynted ag y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud?**

16. **Gwnaethoch ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru am gyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol ond bod ansicrwydd ynghylch y galw y bydd y Bil yn ei roi ar adnoddau. A ydych yn cydgysylltu trafodaethau'r Cabinet ynghylch eich pryderon am gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol?**

O ran Cwestiynau 15 a 16, am y rhesymau a nodwyd uchod, nid yw'n bosibl asesu maint yr effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn llawn tan ein bod yn gwybod manylion cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir fel y mae'n gymwys yn Lloegr, yn benodol i ba raddau y mae'n bwriadu diwygio'r corff hwn o gyfreithiau.

Bydd trafodaethau ar y mater hwn yn parhau rhwng Gweinidogion wrth i'r sefyllfa ddatblygu, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Senedd ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

Effaith a rôl y Senedd

**17. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn credu bod un peth yn glir: mae'n gwneud y math o waith craffu manwl a'r amserlen ar gyfer hynny'n hynod anodd a bod yn rhaid edrych ar sut y bydd hynny'n gweithio. Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd angen cydweithio'n agos iawn rhwng y Llywodraeth a'r Senedd o ran dealltwriaeth o'r hyn yn union sy'n ofynnol, yr hyn sy'n digwydd a'r ffordd orau o reoli hynny. Nid yw'n fater i Lywodraeth Cymru yn unig; yn amlwg, mae'n fater i'r Senedd ei hun, o ran sut y mae'n craffu ac yn asesu'r camau hefyd (Cofnod y Trafodion, 307).**

- **a. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd craffu a roddir i'r Senedd?**
- **b. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Senedd wrth benderfynu ar yr hyn sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil?**

Yn gyffredinol, mae'n rhy gynnar i ateb y cwestiwn hwn yn fanwl gywir am ein bod, unwaith eto, yn gofyn am wybodaeth gynhwysfawr gan Lywodraeth y DU am ei phenderfyniadau.

Byddwn yn disgwyl y bydd y Senedd yn cael y cyfle, yn y ffordd arferol, i graffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â chyfraith yr UE a ddargedwir. Byddwn yn ymgysylltu â'r Senedd ar hyn.

Mae'n anodd mesur hyd a lled y dasg o benderfynu'r hyn sy'n ofynnol, neu roi bys arni'n bendant. Byddwn yn disgwyl i Weinidogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd drwy Ddatganiadau gan Weinidogion pan fydd y dasg yn gliriach.

**18. Ni wnaethoch gadarnhau i ni eich bod yn cysylltu â'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes ynghylch yr effaith bosibl ar amserlen y Senedd. A allech gadarnhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal? Os nad ydynt, a yw Llywodraeth Cymru yn aros am eglurder gan Lywodraeth y DU cyn gwneud hynny?**

Byddwn yn cysylltu â'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes o ran amserlen y Senedd pan fyddwn wedi cael digon o wybodaeth gan Lywodraeth y DU i allu cynnal trafodaethau ystyrlon ynghylch y goblygiadau posibl.

Tirwedd reoleiddiol

**19. A fyddai'r Bil yn cyflwyno terfyn rheoleiddiol?**

Mae'r pŵer yng nghymal 15 o'r Bil i ddirymu neu ddisodli yn cynnwys gofyniad sy'n pennu na chaiff unrhyw newidiadau i ddarn o gyfraith yr UE a ddargedwir, nac unrhyw gyfraith sy'n disodli darn o gyfraith yr UE a ddargedwir, gynyddu'r baich rheoleiddio. Fodd bynnag, nid yw ystyr penodol hyn yng nghyd-destun y Bil yn glir, ond ymddengys bod y Bil wedi cael ei ddrafftio i olygu bod modd ystyried beth yw baich rheoleiddio mewn modd eang iawn. At hynny, nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud datganiad polisi penodol ar ystyr y ddarpariaeth hon.

Fodd bynnag, gellir dadlau bod natur y Bil, a newidiadau posibl gan Lywodraeth y DU i gyfraith yr UE a ddargedwir, yn cynyddu'r baich rheoleiddio i rai busnesau, o leiaf yn y tymor byr, wrth iddynt addasu i safonau newydd, hyd yn oed os yw'r safonau'n is.

**20. Sut y gallai'r Bil effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cymru a'i gallu i wella safonau, lle y bo'n bosibl, ar ôl Brexit?**

Nid yw'r Bil yn ei hanfod yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae angen rhoi egwyddorion datganoli ar waith ym maes polisi rheoleiddio yn y DU, ers iddi ymadael â'r UE. Mae yna hefyd bryderon y bydd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cael rhagor o effeithiau pe bai ymwahanu rheoleiddio (er enghraifft, os bydd Llywodraeth y DU yn diwygio neu'n diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer Lloegr). Gallai hyn arwain at oblygiadau sylweddol o ran y gallu i gynnal a gwella safonau, yn ymarferol, yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru.

**21. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi na fydd mesurau diogelu amgylcheddol yn cael eu gwanhau ac y gall y gwledydd datganoledig gadw deddfwriaeth o fewn eu cymhwysedd. Pa fesurau diogelu amgylcheddol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cadw?**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwanhau mesurau diogelu amgylcheddol presennol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deillio o gyfraith yr UE a ddargedwir. Rydym yn bwriadu ystyried pob opsiwn ac, ar y lleiaf, byddwn yn gweithio i geisio sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir ar fesurau diogelu amgylcheddol yn cael ei chymhathu erbyn y terfyn amser ar gyfer machludo.

<u>Rhanddeiliaid</u>

**22. Gwnaethoch ddweud wrthym y bydd yn rhaid ymgysylltu â rhanddeiliaid oherwydd y bydd yn rhaid cael dealltwriaeth o rai o'r camau sydd wedi'u cymryd. Gwnaethoch ddweud mai'r broblem yw nad yw'n gwbl glir â phwy y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu, i ba raddau, ac ym mha fframwaith (Cofnod y Trafodion, 350).**

- **a. A allech egluro a yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Bil ar hyn o bryd, neu pryd y mae'n bwriadu gwneud os nad yw'n gwneud hynny eto?**
- **b. Gwnaethoch nodi amaethyddiaeth a'r amgylchedd fel meysydd lle y bydd ffocws mawr yr ydych yn rhagweld y byddant yn ddwys iawn (Cofnod y Trafodion, 323). A yw Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y meysydd hyn?**

c. **Sut y byddwch yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn penderfynu pa faterion sy'n bwysig iddynt?**

Rydym eisoes wedi datgan yn glir ein pryderon cyffredinol ynghylch y Bil a'n gwrthwynebiad iddo. Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar sail sectorau sydd ei angen, a hynny yng ngolau penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch y newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir y mae'n bwriadu eu gwneud.

Mae'r meysydd rydych yn cyfeirio atynt yn berthnasol i gyfran sylweddol o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn maes lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Felly, byddwn yn disgwyl ymgysylltu cymaint â phosibl â rhanddeiliaid yn y meysydd hynny pan fydd dull gweithredu Llywodraeth y DU yn glir.

Y Bil Amaethyddiaeth

**Gwnaethoch ddweud wrthym fod y Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys elfennau o gyfraith yr UE a ddargedwir, a gall fod materion a fydd yn codi yn ystod y broses hon y mae angen mynd i'r afael â nhw; ond nid yw'n glir beth allai'r materion hynny fod ar hyn o bryd (Cofnod y Trafodion, 335).**

**23. Pam oedd yn briodol defnyddio'r Bil Amaethyddiaeth fel cyfrwng i ddarparu pwerau eang i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir pan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad o oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn y maes polisi hwn?**

Fel y nodwyd uchod, rydym wrthi'n ystyried ein hymateb i'r sefyllfa sydd, i bob pwrpas, wedi ei chreu o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir. Yn gyffredinol ein safbwynt yw bod cyfraith yr UE a ddargedwir, fel cyfraith yr UE cyn hynny, yn gweithio'n dda ac felly, ac eithrio diwygio'r gyfraith yn raddol fel sy'n briodol dros amser fel sy'n wir gydag unrhyw gorff o gyfreithiau, nid oeddem yn bwriadu diddymu, dirymu na diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir erbyn terfyn amser mympwyol am resymau ideolegol.

Ar ben hynny, nid yw'n sicr eto sut beth fydd fersiwn derfynol Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, pa un a fydd yn symud ymlaen mewn gwirionedd i gael y Cydsyniad Brenhinol ai peidio, ac nid yw'n sicr chwaith beth fydd yn digwydd i bob darn o gyfraith yr UE a ddargedwir. O ganlyniad, mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn symud ymlaen ar sail yr hyn sy'n hysbys eisoes.

**24. Ai bwriad Llywodraeth Cymru yw arbed cyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Bil Amaethyddiaeth yn dibynnu arni o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir? Beth sy'n digwydd os yw cyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Bil yn dibynnu arni'n cael ei dirymu gan Lywodraeth y DU? A yw Llywodraeth y DU yn ymwybodol o angen Llywodraeth Cymru i gyfraith yr UE a ddargedwir barhau i fod ar waith er mwyn gweithredu'r Bil Amaethyddiaeth?**

Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae pwerau gan Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir y gallai Llywodraeth Cymru eu harfer er mwyn cadw cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymateb i'r Bil hwn ac yn gweithio gyda Llywodraeth y

DU i nodi holl gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi ei datganoli, gan gynnwys yr offerynnau hynny a wnaed gan Lywodraeth a Senedd y DU.

**25. Pryd ydych yn disgwyl bod mewn sefyllfa i ddeall ehangder a manylion materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn ystod taith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir/y Bil Amaethyddiaeth?**

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ac, ar y cyd â hyn, rydym yn ystyried sut i ymateb yn ystod y misoedd i ddod wrth i safbwynt Llywodraeth newydd y DU ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ddod i'r amlwg.

**26. Ai eich bwriad chi yw gwneud gwelliannau i'r Bil Amaethyddiaeth i fynd i'r afael â materion o'r fath?**

Fel y nodwyd uchod, byddwn yn parhau i ymgysylltu ac rydym yn ystyried sut i ymateb wrth i safbwynt Llywodraeth newydd y DU ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ddod i'r amlwg.

**27. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu'r dull hwn o gymryd pwerau gweithredol eang i fynd i'r afael ag ansicrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir, yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol pan fydd y darlun yn gliriach?**

Fel y nodwyd uchod, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac rydym yn ystyried sut i ymateb wrth i'w safbwynt ddod i'r amlwg. Yn y cyfamser, nid oes unrhyw gynlluniau i newid y pwerau gweithredol yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Eitem 2.6

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Ionawr 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 9 Chwefror.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gynlluniau economaidd a chyllidol y DU ac ar gyllid i gymryd lle arian yr UE.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cadarnhau ei hamcangyfrifon atodol ar gyfer 2022-23. Byddwn yn tynnu sylw at yr heriau y mae'r broses hon yn eu hachosi i gyllideb Llywodraeth Cymru, gan ddatblygu ar drafodaethau a gynhaliwyd yn flaenorol ynghylch darparu rhagor o sicrwydd i lywodraethau datganoledig o ran cyllid.

Gan ein bod wedi cael cadarnhad y cynhelir Cyllideb y Gwanwyn y DU ar 15 Mawrth, byddaf yn gofyn eto i Lywodraeth y DU ddarparu'r cymorth sydd ei angen er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus ac ymateb i'r pwysau o ran chwyddiant, cyflogau a chostau eraill. Eleni, rydym yn dathlu 75 mlynedd o'r GIG, a byddaf yn gofyn i Lywodraeth y DU fuddsoddi yn ein sector GIG a gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r pwysau sylweddol y mae'n eu hwynebu a sicrhau diwygiadau ehangach.

Gyda'r eitem ar gyllid i gymryd lle arian yr UE, byddwn yn cynnal y drafodaeth o sylwedd gyntaf ar y mater hwn. Byddaf yn tynnu sylw at yr effaith y mae penderfyniadau Llywodraeth y DU wedi ei chael ar Gymru a'r diffyg cyllidol o £1.1 biliwn[1]. Byddaf yn ceisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r ffaith ein bod wedi colli cyllid, ac i sicrhau bod llywodraethau datganoledig yn cael eu cynnwys yn fwy wrth ddefnyddio cronfeydd strwythurol sy'n disodli'r cyllid a gollwyd. Mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cael ei wahodd ar gyfer yr eitem hon.

[1] Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE (4 Mai 2022) | LLYW.CYMRU

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan yr eitem Unrhyw Fater Arall, byddaf yn tynnu sylw at gyhoeddi'r adroddiad interim gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Ar y cyd â'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, rwyf hefyd wedi gofyn am gyfarfod dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i drafod materion sy'n benodol i Gymru gan gynnwys cyllid deg i Gymru a datgarboneiddio.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Eitem 2.7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Russell,

**Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

Rwy'n ysgrifennu i'ch cynghori bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), er mwyn galluogi cyflwyno trefn gaffael bwrpasol fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru. Bydd y Bil byr, sy'n cynnwys pum adran, yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- “Pŵer i ddatgymhwyso” a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso’r ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd Cymru a Senedd y DU a fyddai fel arall yn gymwys i’r broses o gaffael gwasanaethau iechyd GIG Cymru;

- “Pŵer i wneud” i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno, drwy reoliadau, drefn gaffael ar wahân newydd ar gyfer y gwasanaethau iechyd hyn gan y GIG yng Nghymru.

Bydd y Bil ac is-ddeddfwriaeth bosibl yn ceisio galluogi sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Er mwyn galluogi is-ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl, bydd y Llywodraeth yn cynnig cyflymu’r amserlen ar gyfer y Bil a fydd yn ei alluogi i gyrraedd Cam 4 cyn toriad yr haf. Bydd manylion pellach ynglŷn â gweithredu yn cael ei ddarparu ym mhapur Pwyllgor Busnes y Llywodraeth.

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyniad | 13 Chwefror 2023 |
| Diwedd Cyfnod 1 | 28 Ebrill 2023 |
| Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol | 9 Mai 2023 |
| Cyfnod 2 | 10 Mai 2023 – 9 Mehefin 2023 |
| Cyfnod 3 | 4 Gorffennaf 2023 |
| Cyfnod 4 | 11 Gorffennaf 2023 |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn hwyluso trosglwyddo’r Bil hwn, rwy'n hapus i weithio'n hyblyg gyda'r Pwyllgor a hoffwn gynnig briff technegol i'r Pwyllgor ar y Bil gyda fy swyddogion i gynorthwyo eu dealltwriaeth o'r cynnig.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

## Y Pwyllgor Cyllid

## Bil Bwyd (Cymru)

## Papur gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

### Crynodeb

1. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu Bil Bwyd (Cymru) ar y sail ei fod yn ddiangen, y byddai'n achosi biwrocratiaeth a chostau ychwanegol i nifer o gyrff cyhoeddus. Yn bwysicaf oll, byddai'r Bil yn tanseilio'r fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu sydd eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru ac a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer cynllunio strategol, llunio polisïau a chamau gweithredu hirdymor.

2. Mae'r papur hwn yn cyflwyno sylwadau cyffredinol ynghylch y gwerth am arian y byddai'r Bil yn ei roi petai'n cael ei basio, yn ogystal â sylwadau penodol ynghylch y costau a amcangyfrifir yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

### Gwerth am arian

3. Dim ond dau opsiwn y mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei gynnig, 'gwneud dim' neu 'ddeddfu'. Nid oes unrhyw ystyriaeth, nac hyd yn oed amlinelliad o wahanol opsiynau i wella'r gwaith o lunio polisïau a chyd-gysylltu'r gwaith o'u cyflawni gan ddefnyddio'r fframwaith deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi[1] bod y Bil yn cael ei ddrafftio i fod yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n ymhelaethu ar sut y gellir defnyddio'r fframwaith a sefydlwyd gan y Ddeddf honno mewn modd nad yw ar waith eisoes, neu a ellid newid agweddau ar sut y caiff ei roi ar waith er mwyn, yn lle hynny, fynd i'r afael â nodau'r Bil. Yn absenoldeb y ffaith nad oes ystyriaeth i'r opsiynau anneddfwriaethol hyn, nid yw'n bosibl ystyried y cwestiwn yn llawn ynghylch a yw'r Bil yn cynnig gwerth am arian o'i gymharu â'r ystod lawn o opsiynau eraill sy'n bosibl.

4. O ran y cwestiwn llai ynghylch costau'r opsiynau a gyflwynir yn y Memorandwm Esboniadol, gan basio'r Bil fel ag y mae wedi'i ddrafftio neu wneud dim, barn Llywodraeth Cymru yw nad yw'r gost a amcangyfrifir yn werth da am arian. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno costau a amcangyfrifir cynnil iawn sef rhwng £4,729,250 ac £8,584,370[2]. Mae'r rhain yn gostau newydd a rheolaidd. Rwy'n rhoi sylwadau ar fanylder y costau ymhellach ymlaen ond gan eu cymryd fel ag y maent, byddai'r ffigurau uchaf hyn yn achosi gwariant cyhoeddus ychwanegol amlwg heb unrhyw warant o ganlyniadau gwell i'r cyhoedd. Byddai'r

[1] Memorandwm Esboniadol, paragraff 148.
[2] Memorandwm Esboniadol, paragraff 325, tabl 3.

Bil yn creu dull wedi'i gysylltu o ran gosod targedau, cynllunio ar lefelau cenedlaethol a lleol, adrodd ac adolygu. Er hynny, nid oes dim yn y Bil nac yn y Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi sicrwydd pendant ynghylch sut y byddai gweithdrefnau o'r fath yn gwella gweithgareddau sydd eisoes ar waith yn benodol neu weithgareddau nad ydynt ar waith ond y gellid eu gweithredu o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Yn syml, mae perygl y gallai'r dyletswyddau a osodir achosi biwrocratiaeth o ran system ailadroddus o gynllunio ac adrodd. Gallai hynny dynnu sylw ac adnoddau cyrff cyhoeddus oddi wrth bolisïau presennol a pholisïau arfaethedig gan arwain, o bosibl, at allbynnau a chanlyniadau nad ydynt yn ychwanegu unrhyw beth sy'n ychwanegol neu'n wahanol yn faterol. Byddai'r sefyllfa yn cael ei chymhlethu yn sgil sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru gyda'i swyddogaethau i ddarparu cyngor, hysbysu, cefnogi a goruchwylio. Mae'r diffyg eglurder rhwng swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru ac er enghraifft Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd hefyd yn risg y gellid achosi sefyllfa o wastraffu ymdrechion neu arwain at ganlyniadau na fwriedir.

### Costau a amcangyfrifir

5. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y cyfrifiadau technegol a wneir yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn ymddangos yn gywir ar y cyfan. Er hynny, awgrymwn y byddai'n well defnyddio cyfnod arfarnu deng mlynedd o hyd er mwyn talu am y cylch costau yn fwy llawn yn hytrach na defnyddio'r dull pum mlynedd o hyd a fabwysiedir[3]. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn amcangyfrif y gwaith sydd ynghlwm yn rhy isel ac o ganlyniad felly, yr adnoddau sydd eu hangen. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'r Bil yn costio llawer mwy i'w weithredu na amcangyfrifir.

6. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad yw'n bosibl cyfrifo arbedion sy'n deillio o'r Bil a hynny oherwydd y bydd y rhain yn cael eu llywio gan gynnwys y strategaeth fwyd genedlaethol[4]. Mae'n datgan hefyd nad yw'n bosibl amcangyfrif yr arbedion o ran costau sy'n deillio o waith yn Llywodraeth Cymru na fydd ei angen mwyach yn sgil gweithredu polisïau yn well neu yn sgil elwa arnynt[5]. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau na fyddai arbedion yn dod i'r amlwg oherwydd y bydd angen parhau i gyflawni polisïau presennol a pholisïau a gynlluniwyd ynghyd â'r holl waith canlyniadol sy'n deillio o fewn Llywodraeth Cymru neu rhwng timau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Ni all strategaeth fwyd genedlaethol gymryd lle'r gwaith manwl o lunio polisïau a chynlluniau gweithredol. Rydym yn rhagweld y bydd angen i gyrff cyhoeddus eraill barhau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ac na fyddai unrhyw arbedion o ran ymdrech na chostau.

---

[3] Memorandwm Esboniadol, paragraff 325, tabl 4
[4] ibid (diwedd y cynnwys ynglŷn ag 'arbedion o ran costau' t72).
[5] Ibid a pharagraff 327.

7. Ar hyn o bryd, nid yw'r costau na'r manteision yn sgil gweithredu'r strategaeth genedlaethol a chynlluniau lleol yn hysbys. Gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch manylion y cynlluniau hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai risg uchel o lunio amcangyfrifon anghywir a rhai a allai fod yn gamarweiniol wrth gwblhau unrhyw ymgais i asesu costau a manteision ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl gweld rhywfaint o wybodaeth am sut y bydd ystyriaethau gwerth am arian yn cael eu hymgorffori i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth genedlaethol a chynlluniau lleol.

8. Mae rhan helaeth o'r costau a amcangyfrifir wedi'u clustnodi ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru ond dim ond amcangyfrif bras o £0.75 miliwn hyd at £1.5 miliwn y flwyddyn a roddir[6]. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer corff tebyg yn yr Alban nad yw'n weithredol hyd yma, yn ogystal â chymhariaeth lefel uchel o gostau parhaus ar gyfer Comisiynwyr presennol Cymru[7]. Mae'r rhain yn gymariaethau perthnasol ond mae'r ystod o'r costau a amcangyfrifir yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch graddfa a chwmpas unrhyw Gomisiwn newydd a fyddai'n destun cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a chadeirydd y Comisiwn. Gall Llywodraeth Cymru ond ddod i'r casgliad y byddai Comisiwn Bwyd Cymru yn gost ychwanegol sylweddol, heb unrhyw hyder y byddai'n sicrhau unrhyw arbedion. Dim ond drwy asesu manwl pellach ynghylch yr union fodel a gynigir ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru y gellid sicrhau rhagor o sicrwydd ynghylch y costau.

9. Mae'r costau a amcangyfrifir o ran adnoddau Llywodraeth Cymru i lunio'r strategaeth fwyd genedlaethol a 'chyflawni gwaith perthnasol'[8] ymhell o'r hyn a fyddai'n debygol o fod ei angen. Dehonglwn 'cyflawni gwaith perthnasol' i olygu cyflawni swyddogaethau i lunio targedau a'u gosod gerbron y Senedd, yn ogystal â sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru ac ymgynghori gydag ef. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif mai ond tri swyddog rhan amser fyddai eu hangen (pumed o amser swyddog Gradd 7, pumed o amser Swyddog Gweithredol Uwch, ac un diwrnod o amser Dirprwy Gyfarwyddwr) gyda chost o £29,170[9]. Nodwn fod y Memorandwm Esboniadol wedi defnyddio gwybodaeth gan Lywodraeth yr Alban, fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni gan Lywodraeth yr Alban ar hyn o bryd yw bod y gwaith o weithredu Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022 yn gofyn am ragor o adnoddau staff na'r disgwyl. Addysgiadol yw cymharu'r adnoddau sydd eu hangen i lunio cynigion ar gyfer strategaeth newydd i'r diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod yng Nghymru a chynnal ymgynghoriad ar hynny. Ym mis Ebrill 2018, dechreuwyd ar y gwaith o ymchwilio i bolisïau a llywio cynigion a'u profi gan arwain at ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 (oddeutu 15 mis). Roedd y gwaith yn cynnwys yr adnoddau a'r costau craidd blynyddol canlynol[10]:

[6] Memorandwm Esboniadol, paragraff 325, tabl 4 ac o baragraff 364 ymlaen.
[7] Paragraff 365.
[8] Memorandwm Esboniadol, paragraff 374.
[9] Ibid a Thabl 7.1.
[10] Gan ddefnyddio costau gros cyfartalog blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

Oddeutu 0.3 Gradd 7 - £26,019
1 Uwch-swyddog Gweithredol llawn amser - £66,364
1 Swyddog Gweithredol Uwch llawn amser - £52,774
0.95 Swyddog Gweithredol Uwch - £50,135

(Yn ogystal, rhoddwyd cefnogaeth o dro i dro gan swyddogion cyfathrebu, dylunio graffeg, economegwyr, amser gan dimau polisi y mae eu gwaith yn gysylltiedig i raddau â pholisi bwyd, yn ogystal â rhywfaint o fewnbwn ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr.)

Gan ddefnyddio costau gros cyfartalog blynyddol Llywodraeth Cymru, roedd gan y prosiect gostau craidd tybiannol o £195,292 y flwyddyn, sy'n cyfateb i £244,115 dros gyfnod o 15 mis.

10. Yn ychwanegol i'r uchod, elfen sylweddol o'r gwaith i'w gwblhau bydd drafftio a gosod rheoliadau ynghylch y targedau[11] yn sgil y weithdrefn gadarnhaol. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau cyfreithiol na'u hystyriwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

11. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw sylw ynghylch y costau a amcangyfrifir i gyrff cyhoeddus weithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol a llunio cynlluniau bwyd lleol[12]. Er hynny, nodwn fod y rhain yn gostau ychwanegol nad ydynt wedi eu cynllunio ar eu cyfer ar hyn o bryd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Nid yw'n glir o'r Memorandwm Esboniadol a yw cynigydd y Bil wedi trafod â chyrff cyhoeddus yn fanwl ynghylch y costau a amcangyfrifir na sut y byddent yn cael eu cyllido.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**3 Chwefror 2023**

[11] Y Bil, adran 4.
[12] Memorandwm Esboniadol, paragraff 387 a Thablau 8 a 9.

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Ffioedd 2023-24

Ionawr 2023

Cynllun ffioedd yw hwn a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2023



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys


## Trosolwg 4

Cyflwyniad 4

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 6

Codi ffioedd 10

## Atodiadau 11

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 12

2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud 14

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023 16

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd, mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail yr ydym yn codi ffioedd arni.

2 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn nodi:

- y deddfiadau yr ydym yn codi ffioedd archwilio oddi tanynt (**Atodiad 2**).
- y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi ystodau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nas cwmpesir gan raddfeydd ffioedd.

3 Yn fras, ariennir 66% o'n gwariant drwy ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig. Daw'r 34% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r cynnig cyllidebol a basiwyd gan y Senedd.

4 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffioedd yr ydym yn eu codi ar gorff **beidio â bod yn fwy** na'r gost lawn o arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi ar gyfer y corff hwnnw. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail ein hamcangyfrif o'r sylfaen gostau, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau ar gyfer gwaith archwilio a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym ac ni chawn wneud elw ar ein gwaith. Mae ein cyfraddau ffioedd wedi eu pennu ar lefel er mwyn adennill yr amcangyfrif o'r gost lawn, ond dim mwy.

5 Aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori statudol ar ffioedd ac, ym mis Awst 2022, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff archwiliedig a rhanddeiliaid eraill ar ein cyfraddau ffioedd a'n graddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24.

6 Gwnaeth yr ymgynghoriad hwn drafod y canlynol:

- cynnydd cyfartalog arfaethedig o 5.5% yn ein cyfraddau ffioedd;
- cynnydd posibl o 12 i 18% yn ein harchwiliad o raddfeydd ffioedd cyfrifon sy'n gysylltiedig â gweithredu safon archwilio ddiwygiedig, ISA315;
- cynnig i newid rhywfaint o gyllid ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad lleol o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn hwyluso mwy o adolygiadau thematig traws-sector.

7 Cawsom 17 o ymatebion a ddywedodd wrthym:

- y byddai'r cynnydd o 5.5% yn ein cyfraddau ffioedd ac, yn benodol, y cynnydd o 12-18% yn ein graddfeydd ffioedd archwilio cyfrifon yn heriol i'r cyrff hynny nad oedd eu cyllidebau eu hunain yn cynyddu ar yr un lefel ac a oedd yn wynebu'r un pwysau costau byw ag Archwilio Cymru;
- bod cyrff archwiliedig yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnawn ac yn cydnabod nad oes modd osgoi gweithredu ISA315;
- bod yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad, a ysgogwyd gan y gofyniad i gynnwys Cynllun Ffioedd drafft yn ein Hamcangyfrif, yn anodd i rai cyrff;
- nid oedd unrhyw bryderon penodol ynghylch y cynnig i newid cyllid ar gyfer gwaith Archwilio Perfformiad lleol o ffioedd i Gronfa Gyfunol Cymru oddi wrth gyrff archwiliedig;
- y byddai angen i ni weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau cwantwm ac effaith y newid arfaethedig.

8 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar yr ymatebion hyn ac wedi ymateb drwy ailystyried y cynnydd arfaethedig mewn cyfraddau ffioedd, gan leihau'r cynnydd arfaethedig o 5.5% i 4.8%.

9 Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff archwiliedig i liniaru effaith gweithredu ISA315 ar eu ffi archwilio a bydd ein Cyfarwyddwyr Ymgysylltu yn trafod ffioedd penodol i archwilio gyda phob corff wrth i ni gyrraedd y flwyddyn archwilio nesaf.

10 Ni allai Llywodraeth Cymru gadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrff iechyd sydd eu hangen i ddiogelu Cronfa Gyfunol Cymru, ac felly ni fyddwn yn gwneud y newid hwn ar gyfer 2023-24.

11 Rydym hefyd yn bwriadu parhau i sicrhau bod y Fenter Twyll Genedlaethol a'n digwyddiadau GPX ar gael am ddim i gyrff sy'n cymryd rhan.

# Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

## Cyfraddau ffioedd 2023-24

12 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ar ffioedd arfaethedig ym mis Awst 2022, mae angen i ni gydnabod pwysau costau byw ar staff ac rydym wedi gwneud darpariaethau ar gyfer codiadau cyfog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Lle bo modd, rydym wedi lliniaru pwysau chwyddiant drwy nodi arbedion ar gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau megis llety a theithio, gydag arbedion o fwy na £2 filiwn dros y pum mlynedd nesaf yn cael eu nodi.

13 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ansawdd archwilio i ymateb i adolygiadau diweddar y DU gyfan[1] o safonau archwilio a safonau proffesiynol newydd. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol o waith archwilio ac o ansawdd y gwaith archwilio hwnnw.

14 Mae ystyried y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn golygu bod angen i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd ar gyfartaledd o 4.8% yn 2023-24 – gostyngiad o'i gymharu â'r cynnydd arfaethedig o 5.5% a nodir yn ein papur ymgynghori.

15 Nodir ein cyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn **Arddangosyn 1**.

1 Adolygiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; Adolygiad Kingman; ac Adolygiad Brydon

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2023-24**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2023-24 | Cyfradd (£ yr awr) 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 168 | 163 |
| Rheolwr Archwilio | 129 | 122 |
| Arweinydd Archwilio | 106 | 100 |
| Uwch-archwilydd | 85 | 84 |
| Archwilydd | 61 | 60 |
| Hyfforddai graddedig | 55 | 51 |
| Prentis | 40 | 39 |

16 Mae’r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i’r holl waith archwilio ac eithrio i’r graddau y mae’r graddfeydd ffioedd, pan fo’n berthnasol, yn rheoleiddio’r swm sydd i’w godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae’r cyfraddau mewn termau y cytunwyd arnynt). Os yw’n ymddangos wedyn fod y gwaith sy’n gysylltiedig ag archwiliad penodol yn wahanol iawn i’r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, mae’n bosibl y byddwn yn codi ffi sy’n wahanol i’r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol.

# Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2023-24

17 Ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus yw graddfeydd ffioedd, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd o'u cymharu â'r terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith hefyd fel y gall archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff archwiliedig penodol.

18 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009[2] (awdurdodau tân ac achub yn unig);
- gwaith o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

19 Darperir graddfeydd ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2022-23, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad i'w gynnal yn 2023-24, yn **Atodiad 3** mewn cysylltiad ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

20 Darperir graddfa ffioedd ar wahân i ymwneud â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

21 Mae archwilio perfformiad hefyd yn cynnwys archwiliadau datblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac arolygiadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff archwiliedig.

22 Ceir tensiwn rhwng rhoi ffi ymlaen llaw i gyrff archwiliedig am y gwaith sydd i'w wneud ar archwiliadau penodol a bod â threfn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiannau'n anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio ar sail yr amcangyfrif o'n gwariant, yr amcangyfrif o'r cymysgedd sgiliau a'r amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Pan fydd y gwaith gofynnol yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, o ganlyniad i gymhlethdodau yn ystod yr archwiliad, efallai y byddwn yn codi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

2 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhan o broses ddiddymu raddol wrth i ddarpariaethau amrywiol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym.

## Gweithredu ISA315

23 Fel y nodwyd yn ymgynghoriad mis Awst, bydd ein harchwiliadau ar gyfer cyfrifon a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn cael eu cynnal o dan safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 Nodi ac Asesu Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol). Bydd y safon ddiwygiedig yn cael effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar y ffordd y mae archwilwyr yn cynnal asesiadau risg archwilio ac felly ar yr archwiliad cyffredinol. Disgwylir y bydd archwiliadau – yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf o weithredu (archwiliadau 2022-23) – yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio staff mwy cymwys i ymdrin â'r lefel uwch o farn sy'n ofynnol gan y safon.

24 Ein hasesiad cychwynnol o effaith y cymysgedd sgiliau cyfoethocach hwn yw cynnydd cyfartalog rhwng 12% a 18% yn y graddfeydd ffioedd ar gyfer ein gwaith archwilio ariannol. Amcangyfrif yw hwn ar hyn o bryd a bydd yn cael ei adolygu ar ôl gweithredu ein dull diwygiedig yn hanner cyntaf 2023. Rydym yn ymwybodol bod cwmnïau archwilio'r sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn rhoi gwybod iddynt fod ffioedd yn debygol o godi hyd at 20%, o ganlyniad i'r gofyniad newydd hwn.

## Gwaith archwilio perfformiad lleol

25 Trafododd ein hymarfer ymgynghori'r potensial i newid elfen o gyllid ar gyfer gwaith perfformiad lleol mewn 22 o brif gynghorau a saith bwrdd iechyd er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni adolygiadau mwy thematig a thraws-sector.

26 Ni allai Llywodraeth Cymru gadarnhau, cyn cyflwyno ein Hamcangyfrif, ei chefnogaeth i wneud yr addasiadau i gyllid awdurdodau lleol a chyrff iechyd sydd eu hangen i ddiogelu Cronfa Gyfunol Cymru. Felly, nid yw'r graddfeydd ffioedd a nodir yn **Atodiad 3** yn adlewyrchu'r newid hwn.

# Codi ffioedd

27 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffi gyffredinol. Cytunir ar drefniadau codi tâl gyda chyrff archwiliedig, a gallent gwmpasu taliadau untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

28 Disgwylir i gyrff archwiliedig dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau credydwyr, sef deng niwrnod fel arfer. Mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

29 Os bydd angen hynny ar gyrff archwiliedig, dylid codi archeb brynu am y ffi archwilio y cytunwyd arni cyn anfon anfonebau.

30 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â'r aseiniad o'u cymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol sy'n fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y byddwn yn codi costau ychwanegol pan fydd y ffi yn rhy isel. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy'n ceisio lleihau costau gweinyddol, megis drwy wrthbwyso ffioedd yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgareddau archwilio.

# Atodiadau

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

2 Rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae’n rhaid iddi wneud

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023

# 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy’n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i’r cynllun gynnwys y canlynol:

(a) rhestr o’r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi oddi tanynt;

(b) pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu’r graddfeydd hynny;

(c) pan fo’r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i’w godi, y swm hwnnw;

(ch) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo’r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol, ymysg pethau eraill:

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol;

(b) darparu ar gyfer yr adegau a’r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

(a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;

(b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg;

(c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[[3]].

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data); neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

3 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli yn cyfeirio at y 'Cynulliad Cenedlaethol' er i'r enw newid i 'Y Senedd'.

# 2 Rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd oddi tanynt ac y mae'n rhaid iddi wneud

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwiliad o gyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol). | Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir drwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrff llywodraeth leol – gweler isod). | Adran 23(3)(a), (b) a (c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Ymchwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru. | Adran 23 (3)(ba) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 |
| Ymchwiliad o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | Adran 23(3)(ca) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw swyddogaethau sydd gan awdurdod perthnasol a arferir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir drwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Cyngor a chymorth a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Adran 145D(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998<br>Ceir gwneud telerau talu yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan a24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013 yn unig |
| **Mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cymorth i Brif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant Cymru | Adran 41A(6) o Ddeddf Addysg 1997 |
| Astudiaethau sy’n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) | Adran 145C(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol | Adran 45(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol | Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliadau gwybodaeth gwelliant, asesiadau gwelliant ac arolygiadau arbennig o Awdurdodau Gwella Cymru | Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Arolygiadau arbennig o brif gynghorau | Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# 3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2023

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed o dan y Fenter Twyll Genedlaethol

31 Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ar raddfeydd ffioedd am baru data ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn y Fenter Twyll Genedlaethol, a rhagnodi'r graddfeydd hynny. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

32 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn adnodd effeithiol iawn wrth ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Nododd ein hadroddiad dwyflynyddol diwethaf arbedion a gordaliadau posibl o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynyddu'r arbedion cronnus i £42.9 miliwn ers 1996.

33 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol drwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriad hyn yw annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cyfranogwyr gorfodol.

34 Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | Ffi 2023-24 |
|---|---|
| Awdurdod unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol. | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Hefyd, gellir rhoi mynediad i'r holl gyfranogwyr at wiriwr ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol (App Check). | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol

35 Mae ein graddfa ffioedd archwilio cyfrifon yn ystyried yr adnoddau ychwanegol disgwyliedig sydd eu hangen ar gyfer gweithredu ISA315 ar yr archwiliad o gyfrifon 2022-23. Byddwn yn gweithio gyda chyrff archwiliedig i liniaru costau ychwanegol lle bo modd.

**Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 100 | 135 | 159 | 183 | 139 |
| 200 | 163 | 191 | 220 | 167 |
| 300 | 181 | 213 | 245 | 186 |
| 400 | 196 | 230 | 265 | 200 |
| 500 | 208 | 244 | 281 | 213 |
| 600 | 218 | 257 | 295 | 223 |
| 700 | 227 | 267 | 307 | 233 |
| 800 | 235 | 277 | 319 | 241 |
| 900 | 243 | 286 | 329 | 249 |
| 1,000 | 250 | 294 | 338 | 256 |
| 1,100 | 256 | 302 | 347 | 262 |
| 1,200 | 262 | 309 | 355 | 268 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 105 | 112 | 126 | 105 |

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa bensiwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 36 | 48 | 57 | 41 |

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 20 | 40 | 47 | 54 | 41 |
| 40 | 48 | 56 | 65 | 49 |
| 60 | 53 | 63 | 72 | 54 |
| 80 | 57 | 68 | 78 | 59 |
| 100 | 61 | 72 | 82 | 62 |

**Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 17 | 17 | 17 | 17 |

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

**Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 2 | 25 | 29 | 33 | 25 |
| 4 | 30 | 35 | 40 | 30 |
| 6 | 33 | 39 | 45 | 34 |
| 8 | 36 | 42 | 48 | 36 |
| 10 | 38 | 44 | 51 | 39 |

**Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24**

| | Amrediad ffioedd | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 22 | 22 | 26 | 21 |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu

36 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol mewn ardal heddlu– y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd rhannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, ar sail gofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredu a roddwyd ar waith gan y cyrff.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23**

| | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | | | Y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros Cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn** | **Isafswm £'000** | **Canolrif £'000** | **Uchafswm £'000** | **Canolrif £'000** |
| 50 | 68 | 78 | 89 | 69 |
| 100 | 80 | 93 | 106 | 81 |
| 150 | 88 | 102 | 117 | 90 |
| 200 | 95 | 110 | 125 | 96 |
| 250 | 100 | 116 | 133 | 102 |
| 300 | 105 | 122 | 139 | 106 |
| 350 | 109 | 126 | 144 | 111 |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

37 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio sicrwydd cyfyngedig

38 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11 – cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 2 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau | Gweithdrefnau cyfyngedig |
| Blwyddyn 3 | Gweithdrefnau cyfyngedig | Gweithdrefnau cyfyngedig | Profi trafodiadau |

39 Seilir y costau am y gwaith hwn ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad ar gostau cyfradd ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 6.

40 O dan amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, gan gynnwys ar ôl cyhoeddi adroddiad cysylltiedig er budd cyhoeddus, cynhelir profion ychwanegol i fynd i'r afael â phryderon yr archwilydd.

41 Pwysleisir y bydd y gost wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser gwirioneddol a weithiwyd ar yr archwiliad penodol hwnnw. At ddibenion dangosol yn unig y mae'r amrediad ffioedd a ddarperir yn **Arddangosyn 12**.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o'r costau amser ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned 2022-23**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio trafodiadau | £150 – £183 | £170 – £200 | £230 – £282 | £356 – £435 | £635 – £760 | £845 – £1,090 |
| Gweithdrefnau cyfyngedig | £110 – £130 | £136 – £162 | £136 – £162 | £210 – £250 | £210 – £250 | £210 – £250 |

## Cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith arall mewn llywodraeth leol

42 Heblaw am y mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir rhai mathau eraill o gyrff llywodraeth leol y mae'r broses o ragnodi graddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion adnoddau yn ffioedd wedi'u seilio'n uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd fel y nodwyd yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gydbwyllgorau Corfforaethol. Mae'n dal yn wir, ar gyfer archwilio'r cyrff hyn, ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio'r archwiliadau.

43 Cyfrifir amcangyfrif ffioedd archwilio cyrff archwiliedig nas cwmpesir gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn yr un modd â'r rhai a gwmpesir ganddo – hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r amcangyfrif o'r cymysgedd tîm a nifer yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r archwiliad.

44 Yn achos y gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw symiau o'r fath yn fwy na'r gost lawn o ddarparu'r gwasanaeth.

45 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, bydd y tâl am hyn yn cael ei godi ar gyrff archwiliedig yn ychwanegol at gost ein staff archwilio.

46 Er mwyn i gyrff llywodraeth leol o bob math gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol weithiau (y rhai a nodwyd yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â heriau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd costau y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sydd ei angen.

47 Mae'n bosibl hefyd y bydd archwilwyr yn ymgymryd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff archwiliedig sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o gyfrannau cymharol graddau staff archwilio sydd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau**

| Gradd y staff | Cymysgedd staff grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff pob math arall o grantiau % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/prentis | 71 i 77 | 81 i 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a'r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

**Cyfeirnod:** LF23002/AC/346/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 2 Chwefror 2022

Annwyl Peredur

## Cynllun Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2023-24

Rydym wedi nodi gwall yn un o'r arddangosion yn ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24 a gymeradwyodd y Pwyllgor ar 12 Ionawr 2023.

O ganlyniad, cafodd y raddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad mewn awdurdodau unedol ei or-ddatgan yn y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd ac mae angen ei gywiro.

Nodir y graddfeydd gwreiddiol ac wedi'u cywiro o ran Arddangos 4 yn Atodiad 3 isod ac mae dogfennau diwygiedig wedi'u gosod gyda'r Swyddfa Gyflwyno.

### Arddangos 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2023-24

| | Ystod ffioedd | | | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| Cymeradwywyd | 137 | 146 | 164 | 105 |
| Cywiriad | 105 | 112 | 126 | 105 |

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried a chymeradwyo'r cynllun diwygiedig hwn.

Yr eiddoch yn gywir

**LINDSAY FOYSTER**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**